**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
Dydd Mercher 21 Medi 2016
Ystafell Gynadledda 21

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Roy Folland (NAFD)
Nigel Lymn Rose (NAFD)
Lorraine Barrett (Gweinydd gyda'r Dyneiddwyr)
Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd)
Paul Harding (Marie Curie)
Mandie Lavin (NAFD)
Jeremy Field (NAFD)
Kim Bird (About the Funeral)
Jean Letton (BASW)
David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

Russell George AC
Darren Millar AC
Dafydd Elis-Thomas AC
Janet Finch-Saunders AC
Simon Thomas AC
Paul Davies AC
Julie Morgan AC
Neil Hamilton AC
Janette Bourne - Cruse
Philip Blatchly (NAFD)

**Eitem 2: Cymeradwyo'r cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Ethol swyddogion**

Etholwyd y swyddogion a ganlyn:

- Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
- David Beamer (Ysgrifennydd)

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf**

Roedd tri o ymatebion i lythyrau a anfonwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp. Cafodd y rhain eu dosbarthu yn y cyfarfod.

**Eitem 5: Y Gronfa Gymdeithasol / Tlodi Angladdol**

Cafwyd trafodaeth ar dlodi angladdol a'r cymorth a gynigir gan y Gronfa Gymdeithasol.

Siaradodd Nigel Lymn Rose am Ddadl yn Neuadd San Steffan a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016 a drefnwyd gan Gavin Robinson AS. Cafwyd trafodaeth a oedd yn edrych yn fanwl ar ganfyddiadau'r Pwyllgor Gwaith a Phensiynau yn sgîl eu hymchwiliad diweddar. Amlinellodd Martin Birch waith Cyngor Dinas Caerdydd a'u darpariaeth gwasanaeth angladdau. Yna cafwyd trafodaeth ar y rhesymau dros ddarparu'r Gwasanaeth a sut y cafodd ei sefydlu. Yna trafodwyd y diffiniad o dlodi angladd a sut y mae'n amrywio ar draws cenhedloedd a rhanbarthau'r DU.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Gweinidog newydd yn yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno'r Grŵp a chodi ein pryderon.

**Eitem 6: Crwneriaid yn defnyddio tendr sero**

Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp i roi'r eitem hon ar yr agenda. Roedd hyn yn dilyn pryderon a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Grŵp am Grwneriaid yn defnyddio tendrau sero ar gyfer gwaredu corff yr Ymadawedig ar ran y Crwner.

Edrychwyd ar lythyr a dderbyniwyd gan Caroline Dineage AS (y Weinyddiaeth Gyfiawnder), dyddiedig 28 Ebrill 2016, yn y cyfarfod.

Cytunwyd i anfon llythyr at y Prif Grwner newydd i amlinellu barn y Grŵp ar y mater.

**Eitem 7: Darpariaeth Crwneriaid yng Nghymru**

Mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Grŵp, codwyd pryderon ynghylch lefel y gefnogaeth gan Grwneriaid yng Nghymru. Amlinellodd Roy Folland welliannau y mae ef wedi'u gweld a dywedodd Martin Birch fod y gwasanaeth newydd yng Nghaerdydd yn gweithio'n dda. Cafwyd trafodaeth wedyn am lefel gyffredinol y ddarpariaeth crwneriaid.

**Eitem 8: Tystysgrifau marwolaeth**

Cafwyd trafodaeth ar newidiadau i'r broses tystysgrifau marwolaeth yng Nghymru a Lloegr. Nododd yr Ysgrifennydd, yng Nghymru, bod ymgynghoriad i gael ei gynnal "maes o law".

Gofynnodd y Cadeirydd am i lythyr gael ei anfon at Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y broses yng Nghymru a dyddiadau unrhyw weithgareddau ymgynghori yn y dyfodol.

**Eitem 9: Unrhyw fater arall**

Cododd Roy Folland y mater o ysbytai yn mynnu gweld y Ffurflen Werdd. Cytunwyd y dylid gofyn am eglurhad ar ddefnyddio Ffurflenni Gwyrdd mewn ysbytai yn y llythyr at Vaughan Gething AC.

**Eitem 10: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Roedd dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau maes o law.